# CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul ar 13 Chwefror 2012**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 13 February 2012**

**Yn Bresennol/Present**: Cyng/Cllr Tom Cowcher Mrs Eileen Curry (Chair/Cadeirydd) Douglas Davies Mrs Philippa Davies Keith Evans Terry Griffiths Andrew Howell a/and Mrs Carolyn Reed-Rees.

**Cadeirydd** – Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y byddai Cyng Keith Evans yn cyflawni rôl y cadeirydd nes y byddai Cyng Mrs Eileen Curry yn cyrraedd.
**Chair** - In the absence of the Chair and Vice-Chair, it was unanimously decided that Cllr Keith Evans presided as chair until Cllr Mrs Eileen Curry arrived.

**1** **Balchder Pentrefi** – Roedd Gwenfair Owen, cynrychiolydd o Geredigion yn bresennol, ac aeth ymlaen i ystyried y cynlluniau arfaethedig a drafodwyd yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2012. Cadarnhaodd Ms Owen bod y cynlluniau yn addas er mwyn ymgeisio am grant "Balchder Pentrefi" ar eu cyfer, a'n bod yn sicrhau cynnydd da. Diolchodd Cyng Keith Evans i Ms Owen am fynychu, cyn trosglwyddo'r awenau i'r Cadeirydd, Cyng Mrs Eileen Curry. Gwenfair Owen, representative from Ceredigion attended the meeting and went through the proposed schemes as discussed at our Sub-Committee meeting held on 16 January 2012. Ms Owen confirmed that the schemes are suitable for applying for "Balchder Pentrefi" grant and that we are making good progress. Cllr Keith Evans thanked Ms Owen for attending before handing the Chair over to Cllr Mrs Eileen Curry.

(Cyrhaeddodd Cyng Mrs Eileen Curry tuag at ddiwedd y drafodaeth).
(Cllr Mrs Eileen Curry arrived towards the end of the discussion).

2 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau gan/Apologies were received from:- Cyng/Cllrs Richard Anwyl Beth Davies Peter Davies Wyn Evans Philip Marchant a/and Breian Teifi. Cafwyd ymddiheuriad ymlaen llaw wrth Gyng Mrs Eileen Curry am gyrraedd yn hwyr / Cllr Mrs Eileen Curry had apologised beforehand for arriving late.

3 **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest:** Cyng/Cllr Keith Evans - 1st Llandysul Scouts a /and Canolfan Ceufad Llandysul Paddlers Canoe Centre (dispensation).

4 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2012 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd/ Minutes of monthly meeting held on 9 January 2012 were accepted as correct and signed by the Chair.
Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod Is-Bwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2012 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd / Minutes of Sub-Committee meeting held on 16 January 2012 were accepted as correct and signed by the Chair

5 **Materion yn Codi**:- Nodwyd bod coeden Glanrhyd wedi cael ei thorri.
6 **Rhoddion**:- (Datganiadau – gweler uchod)
i) **Lleisiau Bro Eirwyn** (Côr) – (a145) Cafwyd cais am £400. Cawsom ein hysbysu eu bod mewn sefyllfa i gadarnhau nawr eu bod yn dymuno symud ymlaen i brynu piano trydan, a fydd ar gael i sefydliadau eraill hefyd. Cynigiodd Cyng Keith Evans y dylid rhoi rhodd o £400, eiliwyd hyn gan Gyng Douglas Davies ac fe'i derbyniwyd.
ii) **Dathliadau Jiwbilî Capel Dewi** – I'w drafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth.
iii) **Canolfan Deuluol Llandysul** – Rydym yn aros am gadarnhad ysgrifenedig bod y Rhaglen Bwyta'n Iach a'r Llyfr Ryseitiau wedi bod yn llwyddiannus cyn talu'r grant a gymeradwywyd. Cafwyd cydnabyddiaeth derbyn grant mewn perthynas â'r costau rhedeg.
iv) **Grŵp Sgowtiaid 1af Llandysul** – (a19) Cafwyd cais am £1,000 er mwyn talu costau rhedeg ac am ddigwyddiadau gan gynnwys diwrnodau hwyl Jiwbilî Diemwnt y Frenhines a'r Gemau Olympaidd. Cynigiodd Cyng Douglas Davies y dylid rhoi £1,000, eiliwyd hyn gan Gyng Mrs Philippa Davies ac fe'i derbyniwyd.
v) **Canolfan Ceufad Llandysul Paddlers Canoe Centre** – (a145) Cafwyd cais am £1,000 ar gyfer Pencampwriaethau Slalom Iau a Feteran Prydain 2012. Cynigiodd Cyng Carolyn Reed-Rees y dylid rhoi rhodd o £1,000, eiliwyd hyn gan Gyng Tom Cowcher ac fe'i derbyniwyd.
vi) **Home Start Ceredigion** – I'w drafod yn ein cyfarfod nesaf.
vii) Anfonwyd **Ffurflenni Cais am Grant** at y canlynol:- Ymddiriedolaeth Atal Troseddu Dyfed Powys, Ambiwlans Awyr Cymru, Cymorth Canser Macmillan, Canolfan Gynghori, Sefydliad Prydeinig y Galon, a'r Garthen. Penderfynwyd peidio anfon ffurflen at CFfI Ceredigion, a pharhau i roi yn lleol.
7 **Balchder Pentrefi** - Cynlluniau a Chyllid - Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i symud ymlaen â'r cynlluniau a darparu gwerth 10% o'r cyllid. Penderfynwyd ychwanegu mainc ger lloches bws Prengwyn ac arwyddion yn y Ganolfan Deuluol. Trafodwyd y gall y cynlluniau mwyaf ddod o dan gais am gyllid

5 **Matters Arising**:- It was noted Glanrhyd tree has been cut.
6 **Donations**:- (Declarations – see above)
i) **Lleisiau Bro Eirwyn** (Choir) – (s145) Request for £400 was received. We were informed that they are now in a position to confirm that they wish to proceed to purchase an electric piano which will also be available to other organisations. It was proposed by Cllr Keith Evans to give a donation of £400, this was seconded by Cllr Douglas Davies and carried.
ii) **Capel Dewi Jubilee Celebrations** – To be discussed at our March meeting.
iii) **Llandysul Family Centre** – We await confirmation in writing that the Healthy Eating Programme and Recipe Book has been successful before paying the approved grant. Acknowledgement of receipt of donation in connection with running costs was received.
iv) **1st Llandysul Scout Group** – (s19) Request for £1,000 re running costs and events including the Queen's Diamond Jubilee and Olympic fun days was received. Cllr Douglas Davies proposed £1,000, this was seconded by Cllr Mrs Philippa Davies and carried.
v) **Canolfan Ceufad Llandysul Paddlers Canoe Centre** – (s145) Request for £1,000 re 2012 British Junior and Veteran Slalom Championships was received. Cllr Carolyn Reed-Rees proposed a donation of £1,000, this was seconded by Cllr Tom Cowcher and carried.
vi) **Home Start Ceredigion** – To be discussed at our next meeting.
vii) **Grant Application Forms** have been sent to the following:- Dyfed Powys Crime Prevention Trust, Wales Air Ambulance, Macmillan Cancer Support, CAB, British Heart foundation and Y Garthen. It was decided not to forward a form to Ceredigion YFC and continue to donate locally.
7 **Balchder Pentrefi** – Schemes and Finance – It was unanimously decided to proceed with the schemes and to give a 10% financial support. It was also decided to add a Bench near Prengwyn bus shelter and new signage at the Family Centre. It was discussed that the larger schemes could come under a different grant application. Sub-Committee meeting to be held on 20.2.2012.

gwahanol. Cyfarfod Is-Bwyllgor nesaf 20.2.2012

8 **Ciosgau Coch** – Mae Ceredigion yn paratoi cynllun peilot ar gyfer y tri chiosg a fabwysiadwyd, y mae angen eu hail-baentio a'u hadnewyddu. Mae angen amser gwirfoddolwyr ar y Cyngor. Trafodir hyn ymhellach yn ystod ein cyfarfod nesaf.

9 **Adolygiad o'r Polisi Yswiriant** – Dosbarthwyd gwybodaeth a chymeradwywyd canrannau indecs gyswllt 3%, yn unol ag ymholiadau'r Clerc ynghylch y 9 lloches bysiau. Cedwir y taliad yn ôl tan y cyfarfod nesaf.

10 **Gohebiaeth:-**

a) Cafwyd y canlynol wrth **Geredigion**:- Cafwyd hysbysiad o'r cyfarfod ynghylch Paratoi at gyfer Taith Gyfnewid y Fflam Olympaidd ac roedd Cyng Andrew Howell wedi mynychu'r cyfarfod ym Mhenmorfa ar ran y Cyngor, ac adroddodd y byddant yn teithio trwy Aberteifi ar 27-28 Mai. Tir ym Mhlasydderwen – Gofynnwyd i ni roi eglurhad ynghylch y manylion perchnogaeth, gan bod angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar y lloches pren a'r adfeilion carreg. Roedd y Clerc wedi hysbysu bod y Cyngor Cymuned yn talu am dorri'r darn o borfa a'i fod wedi talu am y gwaith o gynnal a chadw'r caban pren yn y gorffennol. Mae Ceredigion yn gwneud gwaith cynnal a chadw yn y lleoliad ar hyn o bryd. Archwilio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Ceredigion – Cawsom ein hysbysu y bydd archwiliad yn cael ei gynnal.

b) **ULlC**:- Cafwyd y canlynol:- Cylchlythyr Cyllido ar gyfer Rhagfyr/Ionawr a Chwefror/Mawrth, Ymateb i Fil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru), Cynnig i newid dyddiad etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, Mai 2016 i Mai 2017, Rhaglen ddogfen – Mae angen Cyfranogwyr ar BBC Cymru a hysbysiadau ynghylch Hyfforddiant.

c) **Bwrdd Iechyd Hywel Dda Health Board**:- **Eich Iechyd** – Dosbarthwyd gwybodaeth a bydd aelodau yn ymateb fel unigolion i'r holiadur. Yn ogystal, bydd Cyng Keith Evans yn drafftio llythyr ar ran y Cyngor, i'w ddosbarthu i'r aelodau er mwyn ei gymeradwyo, cyn anfon ymateb y Cyngor. Roedd Cyng Mrs Eileen Curry yn dymuno cofnodi nad oedd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth.

8 **Red Kiosks** – Ceredigion are preparing a pilot scheme for the three adopted red kiosk which are in need of repainting and renovating. Volunteer time is required by the Council. To be discussed further at our next meeting.

9 **Review of Insurance Cover** – Information had been circulated and 3% index-linking percentages was approved subject to the Clerk checking about the 9 bus shelters. Payment is whithheld until next meeting.

10 **Correspondence:-**

a) The following were received from **Ceredigion**:- Notice of meeting re Preparing for the Olympic Torch Relay was received and Cllr Andrew Howell had attended the meeting held at Penmorfa on behalf of the Council and reported that they are going through Cardigan on 27-28 May. Land at Plasydderwen – We were asked to clarify the ownership as maintenance is needed to the wooden shelter and stone ruins. Clerk had informed that the Community Council pay for the cutting of the grass area and have previously paid for maintenance of the wooden hut. Ceredigion are currently carrying out maintenance work at the location. Examination of the Ceredigion Local Development Plan (LDP) – We were informed that an examination is to take place.

b) **OVW**:- The following were received:- Funding Newsletter for December/January and February/March, Response to Local Government Byelaws (Wales) Bill, Proposal to alter the date of local government elections in Wales May 2016 to May 2017, Documentary-Participants Required for BBC Wales and Training notices.

c) **Bwrdd Iechyd Hywel Dda Health Board**:- **Your Health** - Information has been circulated and members will respond as individuals to the questionnaire. Cllr Keith Evans will also draft a letter on behalf of the Council to circulate to members for approval before forwarding the Council’s response. Cllr Mrs Eileen Curry wished to record that she had not participated in the discussion.

d) **<u>Cymdeithas Ysgol Tre-groes a'r Cylch</u>**:- Maent yn barod i osod hysbysfwrdd, a fydd yn costio tua £300. Cytunwyd mewn egwyddor y byddai hysbysfwrdd yn cael ei brynu, a bydd y Clerc yn gofyn am wybodaeth bellach er mwyn cydymffurfio gyda'r rheoliadau.

e) **<u>Llywodraeth Cymru</u>** – <u>Cynnig i newid dyddiad yr etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru</u> o fis Mai 2016 i fis Mai 2017. Os byddai'r etholiadau yn cael eu gohirio, byddai'r cylch etholiadau ar ôl y dyddiad hwn yn destun ymgynghoriad ar wahân - penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf. Cafwyd gwybodaeth ynghylch <u>Benthyca gan Gynghorau Tref a Chymuned yn 2012-13</u>. Bydd <u>Gwariant Adran 137</u> yn codi o £6.44 i £6.80 fesul etholwr.

f) **<u>Elin Jones AC</u>** – Cafwyd posteri ynghylch ei manylion cyswllt ac fe'u harddangoswyd.

g) **<u>SLCC</u>** – Cafwyd gohebiaeth.

h) **<u>Dolen Teifi</u>** – Anfonwyd llythyr cefnogi mewn perthynas â'u cais am grant ar gyfer Bws Cymunedol.

i) **<u>Dolen Dewi</u>** – Anfonwyd llythyr cefnogi mewn perthynas â'u cais am grant ar gyfer Siop Gymunedol.

j) **<u>Anfonebau</u>**

*i)* <u>Llinos Jones</u> – Cafwyd anfoneb am y swm o £104.75 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Ionawr, a derbyniwyd y dylid ei thalu.

*ii)* <u>Derwen Lighting Ltd</u> – Cafwyd anfoneb am y swm o £717.92 am Osod Goleuadau Nadolig yng Nghanol y Dref.

*iii)* <u>Mr R J Foulkes</u> – Cafwyd cadarnhad bod y cyfrifon ar 31 Rhagfyr 2012 wedi cael eu harchwilio, ac y canfuwyd eu bod yn gywir yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd, a derbyniwyd y dylid ysgrifennu siec i dalu'r ffi, sef £25. Yn ogystal, mae Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees, fel y gwiriwr mewnol, wedi archwilio'r cyfrifon.

*iv)* <u>Meredith Williams Contracting</u> – Cafwyd anfoneb am y swm o £100 am glirio a chael gwared ar yr holl lwyni a'r coed uwch ben y maes parcio gyferbyn â Neuadd Tysul Hall, ac fel y cytunwyd yn flaenorol, derbyniwyd y dylid anfon siec er mwyn talu am y gwaith.

*v)* <u>BT</u> – Cafwyd anfoneb am y swm o £107.09 am rhent ffôn a band eang, a derbyniwyd y dylid ei thalu.

d) **<u>Tregroes School and District Association</u>**:- They are ready to install a notice board in the region of £300. It has been agreed in principle to purchase a notice board and the Clerk is to request further information to comply with regulations.

e) **<u>Welsh Government</u>** – <u>Proposal to alter the date of local government elections in Wales</u> from May 2016 to May 2017. Should the elections be postponed the cycle of elections after this date would be subject to a separate consultation - it was decided to discuss this at the next meeting. Information was received re <u>Borrowing by Community and Town Councils in 2012-13</u>. <u>Section 137 Expenditure</u> will increase from £6.44 to £6.80 per elector.

f) **<u>Elin Jones AM</u>** – Posters were received re contact details and displayed.

g) **<u>SLCC</u>** – Correspondence was received.

h) **<u>Dolen Teifi</u>** – Letter of support has been sent in connection with their grant application for a Community Bus.

i) **<u>Dolen Dewi</u>** – Letter of support has been sent in connection with their grant application for a Community Shop.

j) **<u>Invoices</u>**

*i)* <u>Llinos Jones</u> - Invoice for translating for January in the sum of £104.75 was received and passed for payment.

*ii)* <u>Derwen Lighting Ltd</u> – Invoice was received for the Installation of Christmas Lights at the Town Centre in the sum of £717.92.

*iii)* <u>Mr R J Foulkes</u> – Confirmation was received that the accounts as at 31 December 2012 have been examined and found to be correct on the information provided and cheque passed in payment for the fee of £25. Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees as internal checker has also checked the accounts.

*iv)* <u>Meredith Williams Contracting</u> – Invoice in the sum of £100 was received for the clearing and disposing of all bushes and trees above car park opposite Neuadd Tysul Hall and as previously agreed cheque was passed for payment.

*v)* <u>BT</u> - Invoice for telephone and broadband rental was received in the sum of £107.09 and passed for payment.

11 **Bin Graean Maesymeillion** – I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.
12 **Dathliadau'r Jiwbilî** – Cafwyd trafodaeth, a bydd y mater hwn yn cael ei drafod ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.
13 **CCTV** – Roedd Cyng Andrew Howell a Chyng Mrs Philippa Davies wedi ymweld â Gorsaf Heddlu Aberystwyth. Dosbarthir gwybodaeth gyda chofnodion y cyfarfod nesaf er mwyn trafod y mater.
14 **Cyfarfod mis Mawrth** – Cadeirydd – Ymddiheurodd Cyng Mrs Eileen Curry na fyddai modd iddi fynychu'r cyfarfod ym mis Mawrth. Os na fydd modd i Gyng Philip Marchant (Is-gadeirydd) fynychu, gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y byddai Cyng Keith Evans yn cyflawni rôl y cadeirydd.
15 **Dyddiad Cyfarfod mis Ebrill** – O ganlyniad i ŵyl y banc, penderfynwyd cynnal y cyfarfod ar 10 Ebrill 2012.
16 **Glanhau'r Strydoedd yn Llandysul/Glanhau'r Gymuned** – Cafwyd cadarnhad pellach bod angen rhoi sylw i hyn.
17 **Pobl Ifanc yn y Gymuned – Meini Prawf** – I'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf.
18 **Datblygiadau blodau yn Llandysul – Dysglau plannu** – Efallai y bydd modd cynnwys hyn yng nghynllun Balchder Pentrefi.
19 **Cinio Blynyddol,** i'w gynnal yn Dan 'I Sang, King's Arms ar 9 Mawrth 2012.
20 **Cynllunio**

**Cynllunio**: Cafwyd hysbysiad ynghylch Cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2012.

Archwiliwyd a chymeradwywyd y cynlluniau canlynol:-
Pant y Gogle, Rhydowen – Cyflenwi a gosod 2 dyrbin gwynt Evoco 10K ar fonopol 15m

Cymeradwywyd y cynlluniau canlynol dan awdurdod dirprwyedig:-
Llain Gyferbyn â Gwlefryn Rhydowen – annedd fforddiadwy
Fron, Pont-siân – gosod 1 tyrbin gwynt 15kw a'r holl waith cysylltiedig

**Caniatâd Cynllunio**
Dolwilym, Ffordd Llanfair – Newid defnydd tir amaethyddol yn safle gardd breswyl a chadw twnelau polythen presennol.
Banc Barclays – Disodli'r ffordd o ddianc bresennol
Hazevern Court – Amrywio amod 2
**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990** – Cafwyd Apêl yn erbyn Hysbysiad Gorfodi ynghylch Coetir Pen y graig.

11 **Maesymeillion Grit Bin** – To be discussed next meeting.
12 **Jubilee Celebrations** – A discussion took place and is to be discussed further next meeting.
13 **CCTV** – Cllr Andrew Howell and Cllr Mrs Philippa Davies visited Aberystwyth Police Station. Information is to be circulated with the minutes of the next meeting for discussion.
14 **March Meeting** – Chair – Cllr Mrs Eileen Curry apologised for not being able to attend the March meeting. In the event that Cllr Philip Marchant (Vice Chair) is unable to attend, it was unanimously decided that Cllr Keith Evans will preside as chair.
15 **Date of April Meeting** – Owing to the bank holiday it was decided to hold the meeting on 10 April 2012.
16 **Street Cleaning at Llandysul/Community Clean** – Further confirmation has been received that attention is needed.
17 **Young People in the Community – Criteria** – To be discussed next meeting.
18 **Development of Llandysul flowers – Planters** – Possibly to be included in the Balchder Pentrefi scheme.
19 **Annual Dinner** to be held at Dan 'I Sang, King's Arms on 9 March 2012.

20 **Planning**

**Planning**: Notice of the Development Control Committee Meeting held on 8 February 2012 was received.

The following plans were inspected and approved:-
Pant y Gogle, Rhydowen – Supply and install 2 No Evoco 10K wind turbines on 15m monopole

The following plans were approved under delegated authority:-
Plot Opposite Gwlefryn Rhydowen – affordable dwelling
Fron, Pontsian – installation of 1 no 15kw wind turbine and all associated works

**Planning Permission**
Dolwilym, Llanfair Road – Change of use of agricultural land into residential garden area & retention of existing garden poly tunnels.
Barclays Bank - Replacing current means of escape
Hazevern Court – Variation of condition 2
**Town and Country Planning Act 1990** – Enforcement Notice Appeal re Pen y graig Woodlands was received.